History of the Welsh People of Colorado

# TRAETHAWD HANES CYMRY COLORADO

O'i Sefydliad Boreuaf hyd yn Awr.

1859-1889.

TESTYN

Eisteddfod Gwyl Dewi Sant. Denver, Colo.

GAN EVAN WILLIAMS, DENVER, COLORADO.

PRIS 50 CENTS.

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN EVAN WILLIAMS. 1889.

(ALL RIGHTS RESERVED.)

# HANES CYMRY COLORADO

**O'i Sefydliad Boreuaf hyd yn Awr.**

NID oes dim yn fwy dyddorol i'r hanesydd a'r hynafiaethydd nag ymchwilio i hanes ei genedl, a hyny er cael allan amser eu sefydliad cyntaf mewn unrhyw wlad, talaeth neu dref, er mwyn gweled eu cynydd yn y lleoedd hyny. Ceir fod hyn yn orchwyl anhawdd, yn enwedig mewn lleoedd newyddion, oherwydd fod y bobl yn symud mor fynych o'r naill le i'r llall, a dyma yr anhawsder sydd yn ein gwynebu wrth ysgrifenu hanes Cymry Colorado, gan mae *prospectors* oedd y rhan fwyaf o honynt, ac oherwydd hyny yn symud yn lled aml, oddigerth y rhai a sefydlasant yn y *camps* mwyaf llwyddianus, yn mha leoedd y deuwn o hyd i rai o'n cenedl ag sydd ynddynt er '59 a '60. Modd bynag, er cymaint yr anhawsder, mae

yn destyn hynod ddyddorol i ni, ac amcanwn yn nherfynau y traethawd hwn roddi crynodeb o hanes sefydliadau y Cymry yn y dalaeth mor gyflawn a chywir ag sydd modd. Sylwn ar hanes y Cymry yn mhob swydd lle y maent yn lluosog, gan enwi y lleoedd hyny, a chan adael allan y man leoedd oherwydd diffyg gwybodaeth ddigonol yn eu cylch.

## SWYDD ARAPAHOE.

### DENVER.

Nid oedd dim son an yr enw "Denver" hyd tua 1860. Pan ddaeth yr aur-chwilwyr cyntaf i olchi aur o Cherry creek Aururia y gelwid y lle, ac yn West Denver yn awr yr oedd y *camp*. Y teulu Cymreig cyntaf a ddaeth yma ydoedd Mrs. Davies a'r plant, (mam a chwiorydd Mrs. L. L. Rees.) Pasiodd y teulu hwn drwy Denver yn 1856 ar eu ffordd i Utah, ac ar ol aros yno am ysbaid, ac yn anfoddlon ar y lle, dychwelasant yn mis Mai, 1860, gan sefydlu yr ochr ddwyreiniol i'r *creek*, sef East

4949

Denver yn awr. Adeiladasant *log cabin* ar y tir lle saif y Charpiot Hotel, ar Larimer, rhwng 15th a 16th. Mr. Butler, mab-ynghyfraith Mrs. Davies ydoedd *Marshal* cyntaf Denver. Ganed merch i Mrs. Butler yma yn 1860, a hon ydoedd y plentyn gwyn cyntaf a aned yn y lle. Yr oedd Mrs. Butler yn byw yr adeg hon ar Blake a 18th streets, lle saif y Centennial Hotel yn awr. Mab-ynghyfraith Mrs. Davies (Jim O'Neil) ydoedd y cyntaf i gael ei gladdu yn yr hen fynwent ar Capitol Hill, ac efe a berchenogai y tir yr adeg hono. Dywedir ar sail dda fod Mrs. Davies yn un o 21 o wragedd yn holl diriogaeth Colorado yr un amser. Cawn fod amryw o'r teulu parchus hwn yn byw yma yn awr ac yn gysurus eu hamgylchiadau. Yn mis Mehefin y flwyddyn hono daeth Evan E. Davis a'i deulu ac Evan Davis arall yma o Emporia, Kas., ac mae y blaenaf a'r teulu yn byw yma yn awr ar California Street. Er na arosodd yma ond ychydig yr adeg hono, cawn iddo ddychwelyd yn mhen rhai blynyddau a gwnaeth ei gartref yma. Yn 1862 daeth Gov. John Evans yma i weinyddu y swydd o lywodraethwr, o Evan-

ston, Ill. Deallwn ei fod ef ac Abraham Lincoln yn hen gyfeillion, a dyma y rheswm yn ddiau iddo gael ei benodi i'r swydd bwysig hon. Mae John Evans yn Gymro o waed coch, cyfan, fel y dywedir. O'r amser hyny hyd yn awr mae wedi bod yn weithgar gyda phobpeth a fyddai o les i'r dalaeth, ac efe fu yn offeryn i gael rhai o'r rheilffyrdd pwysicaf i redeg i Denver. Hefyd cawn iddo flynyddau yn ol osod allan ddarn o dir fel ychwanegiad at y ddinas, yr hyn a elwir yn *Evans Addition*, a'r flwyddyn hon mae wrthi yn adeiladu *Office Building*, wyth uchder lloft, yr hyn a ddengys, er ei fod yn heneiddio, fod ei ffydd yn cryfhau yn nyfodol y *Queen City*. Eiddunwn iddo hir oes i wneyd daioni. O 1860 hyd 1867 cawn amryw Gymry yn sefydlu yn Denver, ac yn eu mysg John P. Williams, Griffith Evans (Estes Park wedi hyny), L. L. Rees, Evan G. Owens ac eraill, ond ni chymerodd dim rhyfedd le yr adeg hon. Yn y blynyddoedd rhwng 1868 a 1872 daeth amryw o'n cenedl yma, yn eu plith cawn William J. Evans, Richard Hughes, Rice Morgan, R. R. Griffiths, James Thomas, John Evans, W. W. Griffiths, Hugh

4951

Pritchard ac eraill. Prif ddigwyddiad 1872 ydoedd sefydliad yr Ysgol Sul ynghyd a chwrdd canu. Sefydlwyd yr Ysgol Sul yn nghapel y Presbyteriaid Saesoneg a phenodwyd y diweddar William J. Evans yn arolygwr. Byr fu tymor eu harosiad yn y lle hwn gan iddynt symud i gynal eu cyrddau i gongl Holladay a 15th. Cawn fod o 20 i 40 o Gymry yn mynychu yr Ysgol a chynulliad da yn y cyfarfodydd eraill. Yr adeg hon ceid ambell bregeth, a diau mae i'r Parch. John T. Williams, Erie, y perthyn y clod o draddodi y bregeth Gymraeg gyntaf yn Denver, oblegid cawn ei fod yn dyfod yma yn fynych yr adeg hon i draddodi y gwirioneddau am y groes i'w gydgenedl. Yr oedd golwg pur addawol ar yr achos goreu am beth amser, ond tua 1874 bu farw o ddiffyg y gefnogaeth ddyladwy a gwasgariad y Cymry o'r ddinas. Daeth y *panic* yn mlaen ac oherwydd y cyfryw wele ychwaneg yn ymadael fel mae nifer fechan o'n cenedl a arosodd yma. Modd bynag, wedi i effeithiau *panic* 1877 fyned drosodd dechreuodd y Cymry ail gasglu i Denver. Tua'r adeg hon daeth J. G. Jenkins ac eraill i breswylio yma ac yn 1879 wele Lewis

4952

Roberts ac amryw eraill yn gwneyd eu hymddangosiad. Dechreuwyd cynal cyrddau adloniadol yn bur fuan, ac yr oedd y cynulliadau yn lluosogi yn barhaus, fel y cawn, ar y 4ydd o Orphenaf, 1883, i'r Cymry gynal math o Eisteddfod leol yn East Turner Hall. Prif seren y mudiad hwn ydoedd Merlin Jones (yn awr yn Oakland, Cal.), a dygwyd y cyfan allan yn hynod lwyddianus. Cyfarfyddau y genedl Gymreig yr adeg hon yn lled reolaidd yn yr hen Good Templars Hall ar Holladay Street. Y flwyddyn hon (1883) sefydlwyd y Cambrian Society, ac yn mis Hydref cynalient eu cyfarfodydd yn Euclid Hall ar 14th Street. Daeth amryw Gymry newyddion i'r ddinas yr adeg hon ac yn eu mysg cawn D. Saunders, Evan Evans, William Edwards, John G. Roberts ac eraill. Llywydd y Cambrians bron er y cychwyn ydyw John G. Jenkins, ynghyd a Lewis Roberts yn Ysgrifenydd. Perthyna i'r gymdeithas rai o brif Gymry y ddinas. Amcan y gymdeithas ydyw helpu rhai o'n cenedl pan mewn angen, ac mae wedi gwneyd llawer o les yn y cyfeiriad yma heblaw dwyn y Cymry i gyffyrddiad a'u gilydd. Cynelir cyrddau ad-

4953

loniadol a dawns dan nawdd y Cambrians, a bob blwyddyn dathlir Gwyl Dewi mewn modd anrhydeddus, pryd y daw cynrychiolwyr o bron bob sefydliad Cymreig yn y dalaeth yma. Yn 1883 hefyd, talodd y Parch. David Saunders, Abertawe, D. C., ymweliad a'r ddinas a thraddododd bregeth alluog i'r Cymry yn nghapel y Methodistiaid Esgobol ar Lawrence Street. Daeth i feddwl rhai o'r Cymry roddi anrheg i'r gwr parchedig er cof am ei ymweliad a'r ddinas, ac aed ati o ddifrif, ac fel pob peth yr ymafla Cymry y brif ddinas ynddo llwyddasant i godi digon o arian i gael ffon a phen aur gwerth $60. Disgynodd y gorchwyl o'i gyflwyno ar R. R. Griffiths, yr hyn a wnaeth mewn araeth fer ac i'r pwrpas. Yn 1884 wele y Cymry yn cyhoeddi Eisteddfod Dalaethol Colorado, i'w chynal yn Denver dydd Nadolig y flwyddyn hono. Aed ati o ddifrif i barotoi rhaglen o'r testynau, yr hon sydd hyd heddyw yn glod idynt. Disgwylid amser da, ond ow! wele y streic yn dechreu a'r mwyafrif o Gymry y dalaeth allan o waith. O'r diwedd, wele dydd cynaliad yr Eisteddfod yn gwawrio, ac fel yr ofnid, ychydig ddaeth ynghyd, a throi allan

4954

yn aflwyddianus a wnaeth, ond nid oherwydd diffyg ymdrech ar ran y pwyllgor, ond am fod sefyllfa pethau yn y dalaeth yn isel ar pryd. Hugh Jones, Erie, oedd yr arweinydd; Tafalaw yn feirniad ar y rhyddiaeth a'r farddoniaeth: T. E. Jenkins, Central, yn beirniadu yr adroddiadau, ynghyd a Precentor Stevenson a John Phennah, Erie, yn feirniaid y canu. Llywyddion y gwahanol gyfarfodydd oeddynt Ex-Gov. John Evans, Judge Belford a Gen. Sampson. Cawn yn y flwyddyn hon i'r Cambrians ymuno mewn glan briodas gyda'r clybiau Albion a'r Caledonian, ac yn y man wele y tair cymdeithas yn prydlesu adeilad i gynal eu cyfarfodydd ar 17th a Curtis, yr hwn le a alwant yn "Union Hall," a dyma lle y cynalia y Cambrians ei cyfarfodydd yn awr. Yn 1886 cawn y digwyddiad Cymreig nesaf yn cymeryd lle, sef ail sefydlu Ysgol Sul. Sefydlwyd hon ar y 19eg o fis Mawrth yn yr Union Hall, a chafodd gychwyniad da—tua 35 o ysgolorion, yn cael eu dosranu yn 5 o ddosbarthiadau. Etholwyd Edward J. Owens yn Arolygwr, Hugh R. Hughes yn Ysgrifenydd a Mrs. Brubaker yn Drysoryddes, ynghyd a W. D. Price yn Holwr.

Yr Athrawon cyntaf oeddynt Evan B. Evans, John T. Williams, William W. Griffiths, Lewis Roberts ac Evan Williams. Mae yr Ysgol yn awr yn dair blwydd oed a golwg llewyrchus iawn arni. Mae ar gyfartedd tua 50 yn mynychu yr Ysgol ac wedi eu dosranu i 8 o ddosbarthiadau. Wrth weled y fath lwyddiant pan sefydlwyd yr Ysgol, daeth i feddwl y cyfeillion sefydlu Eglwys yma, ac felly y gwnaed y mis Mai dilynol (1886) gan y Parch. William Charles, Dodgeville, Wis., yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. W. D. Price, Denver. Cysgoda yr Eglwys dan nawdd y Methodistiaid Calfinaidd. Rhif yr aelodau y Sul cyntaf ydoedd 32, ond yn awr rhifant tua 70. Yn mis Hydref y flwyddyn hon talodd y Parch. M. A. Ellis, M. A., ymweliad a Denver a chydag ef ei ferch, Miss Emily Ellis a Miss Miriam Jehu, er rhoddi cyngerdd yma. Ar y 19eg cawn y ddwy ferch ieuanc dalentog yma yn cynal eu budd-gyngerdd yn yr Union Hall yn cael eu cynorthwyo gan gerddorion lleol. Synwyd y gynulleidfa gan ganiadau swynol Miss Ellis a chan adroddiadau meistrolgar Miss Jehu, fel y gofynwyd i'r ddwy foneddiges

4956

ieuanc roddi cyngerdd arall, ac felly y bu; rhoddwyd un yr wythnos ddilynol yn y Second Congregational Church i gynulleidfa fawr, a chyda'r un gradd o lwyddiant a'r cyngerdd blaenorol. Cafodd y boneddigesau hyn glod mawr yn y papurau dyddiol. Y trydydd Sul yn Hydref, drachefn, cawn y Parch. M. A. Ellis yn pregethu i'r Cymry yn nghapel yr Undodwyr i gynulleidfa fawr, a Miss Ellis yn canu. Yr oedd y bregeth yn deilwng o'r gwr parchedig yn ei chyfansoddiad a'i thraddodiad. Yn y cyfamser cawn fod pethau Cymreig yn rhedeg fel arferol—y Cambrians a'r Eglwys yn flodeuog, ond yn mis Mawrth, 1887, wele yr Eglwys yn cael ei chynhyrfu oherwydd y ddawns a gynaliwyd gan y Cambrians i ddathlu Gwyl Dewi, yr hyn a fu yn offeryn nid bychan i oeri y cariad brawdol oedd yn bodoli rhwng yr Eglwys a'r Cambrians. Gostegodd y terfysg hwn, ond i gael ei adgyfodi drachefn y Mawrth canlynol (1888). Aeth yr ystorom hon drachefn heibio heb anafu neb, oddigerth ail-gyneu teimladau drwg yn y naill at y llall. Cyn hir cawn bobpeth yn myned yn mlaen fel arferol, ac yn yr haf hwn wele y

4957

Cymry yn dechreu adeiladu capel ar Welton a 13th. Agorwyd y capel yn mis Medi canlynol trwy wasanaeth y Parchn. Dr. Moore (M. E.), Lewis (diweddar o Gymru), John P. Jones a William G. Williams, o Erie. Costiodd y tir $3,500 a'r adeilad a'r dodrefn tua $2,000, ond nid ydyw y tir wedi talu am dano eto, ac y ychydig o ddyled yn aros ar yr adeilad. Y Parch. William Charles fu yn bugeilio y defaid yma am y ddwy flynedd gyntaf, ac yn awr y Parch. Thomas Miles, o Trenton, Neb., sydd yn gwasanaethu yr Eglwys. O'r adeg hono hyd y 1af o Fawrth ni chawn i ddim neillduol gymeryd lle, ond y diwrnod hwnw cawn Gymry Denver yn cynal Eisteddfod fawreddog yn nghapel yr Undodwyr er dathlu Gwyl Dewi. Credwn na welwydd y fath gynulliad o Gymry erioed o'r blaen wrth odrau y Mynyddoedd Creigiog, oblegid bernir fod o leiaf 600 o Gymry dieithr yn y ddinas. Llywyddion y gwahanol gyfarfodydd oeddynt Ex-Gov. John Evans, Dr. Moore a Mr. J. G. Leyshon. Arweinydd y dydd ydoedd y Parch. M. A. Ellis. Beirniaid y gwahanol destynau oeddynt Mrs. Thomas Tonge, Parch. M. A. Ellis, Prof. Vin-

4958

cent Morgan, Dr. Moore, Prof. De Sollar, J. G. Smith ac R. R. Griffiths. Dyma un o'r Eisteddfodau goreu y buom ynddi erioed, ond er hyny deallwn mae troi allan yn aflwyddianus a wnaeth mewn ystyr arianol er holl lafur ac ymdrech di-ildio y pwyllgor. Modd bynag, llongyfarchwn y pwyllgor am ddwyn ein cenedl mor amlwg i sylw cenhedloedd eraill. Ceir yn y ddinas hon amryw o'n cenedl yn fasnachwyr llwyddianus, sef John G. Jenkins, yn cadw ystordy esgydiau; Evan G. Owens, yn gwerthu gynau; James Thomas, yn gwerthu oriaduron, ynghyd ag amryw eraill. Yma y bu farw y pregethwr galluog Parch. E. L. Herbert, ac yn ei farwolaeth ef collodd Cymry y ddinas un o'r dynion mwyaf defnyddiol. Yn nghapel yr Undodwyr cawn ffenestr goffadwriaethol iddo, yr hyn a ddengys fod "ei goffadwriaeth yn fendigedig" ganddynt. Cyfrifir fod yn byw yn Denver yn awr o 1,000 i 1,500 o Gymry, er, mae'n wir, na welir cymaint a hyny yn dyfod ynghyd i unrhyw gyfarfod. Dengys yr hyn a ysgrifenwyd fod cynydd ein cenedl yn y ddinas hon wedi bod yn lled gyflym, ac hefyd eu bod mewn agwedd lled lew-

4959

yrchus yma yn awr. Ein dymuniad ydyw ar fod i lwyddiant mwy eto ddilyn Cymry y brif ddinas.

---

## SWYDD BOULDER.

Deallwn fod Cymry wedi sefydlu yn y swydd hon tua 1873. Y cyntaf y gwyddom am dano ydoedd Griffith Evans, yr hwn a aeth o Denver i Estes Park yn y flwyddyn hono i godi anifeiliaid a chwilio am y "metal melyn," a bu yno am lawer o fiynyddau. Yn 1877 cawn i Thos. T. Roberts (Denver yn awr) ac eraill fyned yno ato. Yn 1874, os ydym yn cofio yn iawn, torodd *exitement* Jamestown allan, ac ymfudodd William J. Williams ynghyd ac eraill o'n cenedl yno ac i'r ardaloedd cylchynol. Bu y Cymry yn dra lluosog yn y swydd hon yn 1884, a'r prif sefydliad ydoedd Gold Hill, ond heddyw ni cheir ond ychydig yn y swydd o gwbl. Un adeg yr oedd yn y swydd hon tua 150 o'n cenedl yn preswylio.

4960

## SWYDD CHAFFEE.

Sefydlodd Griffith Evans (brawd Evan B. Evans, Denver) yn y swydd hon mewn lle a elwir Brown's Creek yn 1873, ac yno mae y teulu yn byw yn awr yn cadw fferm.

### ST. ELMO.

Sefydlwyr cyntaf y lle hwn ydoedd Robert Parry (Cynfelyn), ei ddau fab, William Lloyd, Ellis M. Jones, John Thomas a Daniel Williams. Daeth y personau hyn yma yn Ionawr, 1880, o Leadville, ac fe gawsant amser lled galed o honi am ysbaid, gan nad oedd y lle ond anialwch diffaeth yr adeg hono. Yn mhen ychydig cawn i Griffith Evans ddyfod yma o Brown's Creek i agor ystordy, a bu yma yn fasnachwr llwyddianus am rai blynyddau, ond daeth angeu heibio a bu farw y Cymro cymwynasgar hwn, gan adael gair da ar ei ol, a choffadwriaeth fendigedig. Cawn fod Cynfelyn yn trigianu yma o hyd, ynghyd ag amryw eraill. Bu Cynfelyn yn arolygydd rhai o'r mwngloddiau goreu yn y lle, a gelwir ef gan lawer yn "dad St. Elmo," oherwydd mai trwy ei lafur ef yn fwyaf neillduol y mae St. Elmo

yr hyn ydyw yn awr. Cawn iddo fod yn arolygydd y Mary Murphy, Tom Murphy ac eraill, ac fe drodd yr oll allan yn llwyddianus dan ei ofal. Pob llwyddiant iddo eto yn y dyfodol, medd yr awdwr.

---

## SWYDD CLEAR CREEK.

### IDAHO SPRINGS, GEORGETOWN A SILVER PLUME.

Yn 1860 darganfyddwyd aur hyd waelodion South Clear Creek, lle y saif Idaho Springs yn awr, ac wele yr archwylwyr yn prysuro yno o Gregory Gulch, ac yn eu plith lawer o Gymry, sef John W. Edwards, "arwr Missouri City," a Geo. Griffiths, genedigol o Utica, N. Y. Buont yn lled ffodus yn newisiad tir, a chawn i'r ddau fod yn flaenllaw yn ffurfiad cyfreithiau i'r mwnwyr yn y rhanbarth. Etholwyd John W. Edwards yn *Judge of the Miners' Court*, a George Griffiths yn Gofrestrydd. Yn 1864 aeth Griffiths i ganlyn yr afon yn mhellach gan chwilio am aur wrth fyned, a chawn iddo,

4962

tua 12 milldir o Idaho Springs, ddarganfod gwythienau addawol iawn, ond er ei siomedigaeth nid oedd "aur" i'w weled wrth olchi y pridd. Er ei fod yn *prospector* profiadol, ac wedi darganfod y mwngloddiau "Cymro," "Wales" a "Bangor" yn swydd Gilpin, nid oedd yn deall natur ei ddarganfyddiadau y tro hwn. Gyrodd sachaid o'r mwn i Central yn ddioedi, a chafodd ei fod yn gyfoethog mewn *arian*. Aeth y newydd hwn fel mellten dros y gymydogaeth ac wele y bobl yn dylifo i'r lle newydd, ac er mwyn anrhydeddu y Cymro anturiaethus enwyd y dref newydd yn *George-town*, a'r rhanbarth yn *Griffith Mining District* a'r mynydd uchel gerllaw yn *Griffith Mountain*. Yn 1867 cawn i'r gwr hwn (Griffiths) briodi Sarah Anne, merch y diweddar Evan Williams, Central. Collodd ei briod y flwyddyn ganlynol a throdd yntau ei wyneb tuag Utah, lle yr oedd yn bur ddiweddar. Yn 1864 cawn yn mhlith Cymry Georgetown Noah Pergerine, Thomas G. Roberts, William H. Pierce a'r teulu ynghyd ag eraill, ac yn 1867 daeth John G. Roberts yma at ei frawd, a cheir y ddau yn lled fuan yn gweithio yn egniol tuagat godi

4963

capel i'r Presbyteriaid Saesoneg, a da genym ddywedyd i'w llafur gael ei goroni a llwyddiant. Yn 1870 wele R. R. Griffiths a John T. Davies (y ddau yn Denver yn awr) yn dyfod i Georgetown. Dychwelodd y blaenaf i Denver ond arosodd Davies yno am rai blynyddau. Yn y cyfamser penodwyd Davies yn sirydd. Yn 1870 dychwelodd William H. Pierce o'r dwyrain gan sefydlu ar Spanish Bar, ger Idaho Springs, a chydag ef daeth Edward Jones (Russell Gulch yn awr), Owen S. Owens, David Harris, D. Alexander, Lewis Evans ac eraill. Aethant bron oll i weithio yn y mwngloddiau cyfagos, gan lettya gyda Mr. Pierce. Mae'n debyg mai prif ddigwyddiad yr haf canlynol ydoedd y briodas ddwbl Gymreig yn y Beebe House, Idaho Springs, lle y cafodd Edward W. Williams ei glymu gyda Miss Mary Hammond a William J. Evans yr un modd gyda Laura Hughes. Yn haf 1872 ffurfiwyd cwmni yn Lloegr er toddi mwn ar y Spanish Bar, a chawn i Prof. Pierce (Argo yn awr) ddyfod yma gyda tua 12 o Gymry profiadol yn y gwaith hwn o Abertawe, D. C. Cyraeddasant y lle yn mis Hydref. W. J. Williams yn arolygydd a W.

D. Morgan yn ben-gweithiwr. Yn 1873, drachefn, daeth Rice N. Hughes (Denver yn awr), Daniel Bowen a John Morris i'r lle o Dodgeville, Wis., gan sefydlu yn Idaho Springs. Prynodd y ddau flaenaf ran mewn mwnglawdd gan John W. Edwards, a buont yn bur llwyddianus am beth amser. Yn ngwanwyn 1874 aeth rhai o Gymry Spanish Bar i helbul tra yn Idaho Springs a'r canlyniad fu rhoddi rhybudd i'r Cymry gadw ymaith o'r lle. Yr oedd hyn yn fwy na allasai y Cymry ddal, ac felly ar un nos Sadwrn aeth tua dwsin o honynt i'r pentref; daethant i wrthdarawiad a'u gelynion ar fyrder, a phenodwyd un o bob ochr i'w hymladd hi allan. Dewisodd y Cymry Evan S. Evans a'r ochr arall Ellmyn o'r enw Rueder, ond wedi myned allan a thynu eu dillad gwrthododd yr Ellmyn fyned yn mlaen. Modd bynag diwedd hyn oll ydoedd i'r Cymro cywir John Hnghes (Ffordd deg) gael ei drywanu gan yr Ellmyn, yn hollol ddirybudd, ac fe ddiangodd y llofrudd yn ddigosb oherwydd llwfrdra y Cymry a'u cyndynrwydd i dystio yn ei erbyn. Mae gwaed John Hughes yn gwaeddi yn uchel am i ryw Nemesis gyfodi i

4965

ddial llofruddiaeth mor greulawn ac erchyll. Disgynodd yr ergyd hon mor drwm ar Thomas ei frawd nes effeithio ar ei iechyd ac aeth i ganlyn John yn lled fuan. Yn 1874 cawn Thomas G. Roberts yn arolygydd y mwnglawdd "Dives," a John G. Roberts, ei frawd, yn arolygydd ar fwngloddiau cyfoethog G. W. Church, a'r mwngloddiau bron oll yn llawn o Gymry a Mrs. Mary Jones, o Dodgeville, Wis., yn porthi a llettya tua 40 o honynt yn Silver Plume. Yn 1874, hefyd, daeth y brodyr L. L. a Phillip Roberts drosodd o swydd Gilpin gan sefydlu masnach ar raddfa eang yn Silver Plume, a chawod eraill o Gymry Dodgeville, Wis., yn disgyn yn y lle, sef y tri brawd Edward, William a John Watkins a'u teuluoedd, ynghyd a D. Woodward, William a Thomas Davies ac eraill. Yn 1878 etholwyd L. L. Roberts yn Drysorydd y swydd, ac oherwydd hyny gwerthodd ei fasnach i Henry ei frawd, yr hwn oedd newydd ddyfod yno o Laramie, Wyo., a symudodd L. L. Roberts i Georgetown i fyw. Ar ol gorphen ei dymor fel trysorydd gwrthododd ail-benodiad ac agorodd "Livery and Feed Stables" yn Silver

Plume. Yn 1878 cawn nythaid o Gymry yn Freeland, ger Idaho Springs, a William H. Pierce yn ben-gweithiwr ar y mwnglawdd a elwid "Freeland;" y Parch. W. D. Price yn agor efail gof; Jenkin Edwards a Jenkin Roberts (y ddau o Golden) yn agor masnachdy helaeth, a chawn fod yno y pryd hwn y mwnwyr adnabyddus canlynol Griffith Gee Jones, Griffith Roberts, John D. Lloyd, Robert J. Roberts, John W. Lloyd, William Edwards ac eraill. Yr oedd John G. a Thomas G. Roberts yn arolygu mwngloddiau gerllaw yr adeg yma. Y flwyddyn hon, hefyd, sefydlwyd Ysgol Sul yma, a cheid ambell bregeth gan y Parch. W. D. Price, ond wele anneailltwriaeth yn cyfodi ynghylch gweithio ar y Sul, a'r Cymry yn gwasgaru oddiyno. Modd bynag, deallwn fod y Cymry yn cael cyfarfodydd dyddorol yma yr adeg hono. Cyn terfynu gyda'r swydd hon rhoddwn gipdrem drosti yn nechreu y flwyddyn hon: y brodyr Roberts, Silver Plume, wedi helaethu eu masnach a sefydlu cangen yn Idaho Springs dan arolygiaeth L. L., y brawd hynaf; Evan T. Evans (Ap Deulyn) yn arolygydd ar fwngloddiau cwmni o St. Louis, Mo.;

William Edwards a William T. Phillips (Denver) yn perchenogi mwnglawdd ar Spanish Bar ac yn eu weithio yn llwyddianus; y cantorion enwog Lewis Oliver a Daniel Jones yn byw yn Silver Plume a Dan. wrthi yn canu yr "Half Bushel" nes mai Gray's Peak bron yn dawnsio, a Lewis Oliver yn canu "Hen Ffon fy Nain" yn felus a swynol dros ben. John Freeman Jones yn arolygu mwngloddiau y "Silver Age Mining Co." ac yn edrych fel pe ar ben ei ddigon pan y daw i Idaho Springs i chwilio an fwnwyr Cymreig. Foulk Williams, fel arfer, yn chwilio am fwnglawdd rhad i gwmni o "Loegr a Nebraska," fel rhwng pob peth a'u gilydd cawn fod y Cymry yn "ehedeg yn uchel" yn y swydd hon. Bernir fod o 100 i 150 o'n cenedl yn byw yn ardaloedd Idaho Springs, Freeland, Georgetown a Silver Plume.

---

## SWYDD ELBERT.

Mae amryw o'n cenedl yn byw yn y swydd hon. Mae yr oll yn amaethwyr cyfrifol ac yn wasgaredig ar hyd y swydd. Cawn i Evan E.

Davis (Denver) gymeryd tir i fyny yn agos i Elizabeth rhyw 19 mlynedd yn ol, ac mae yn amaethu yno yn awr. Bu Ysgol Sul Gymreig yn cael ei chynal mewn un lle yn y swydd, ond deallwn ei bod yn cael ei chario yn mlaen yn awr fel Ysgol Sul Undebol Saesonaeg. Gan fod y Cymry mor wasgaredig yn y swydd mae yn anhawdd rhoddi amcan-gyfrif o'u rif.

---

## SWYDD EL PASO.

Mae llaweroedd o'n cenedl yn byw yn y swydd hon, a hyny er's blynyddau bellach. Mae y Cymro twymgalon John R. Jones yn trigianu yn Colorado Springs er y flwyddyn 1871, a chawn amryw Gymry yn byw yn Colorado City a Manitou. Daeth R. G. Gwillim i'r swydd hon yn 1871, gan sefydlu ar y *divide*, ac yn 1872 daeth Richard ei frawd yno ato, a thrachefn, yn 1878, cawn ei frawd arall, David, yn dyfod yno, ynghyd ag amryw eraill, ond dychwelodd David i Gymru yn lled fuan a bu farw yno. Gelwir y lle y sefydlasant ynddo yn *Gwillim*ville, er anrhydedd i'r tri brawd a

enwyd. Mae R. G. Gwillim yn byw yma yn awr ac yn cadw gweithfa gaws. Ceir yn y lle hwn heddyw o 30 i 40 o'n cenedl yn preswylio a bron yr oll o honynt yn amaethwyr cyfrifol a llwyddianus. Yn Falcon, drachefn, deuwn ar draws teulu Cymreig o'r enw Evans yn amaethu, fel wrth daflu ein golwg dros yr holl swydd, cawn fod yma rai ugeiniau o Gymry.

---

## SWYDD FREMONT.

### CANON CITY, COAL CREEK, ROCKVALE A WILLIAMSBURGH.

Mae lluaws o'n cenedl yn byw yn y swydd hon sef yn Canon City, Coal Creek, Rockvale a Williamsburgh. Y sefydlwr Cymreig cyntaf ag y gwyddom am dano ydoedd un o'r enw Mathews, yr hwn a ddaeth yma yn flaenorol i 1870, gan gymeryd i fyny rai canoedd o aceri o dir gyda'r bwriad o sefydlu *Welsh Colony*, ac oherwydd hyny ymfudodd llawer o Gymry i'r sefydliad newydd, ond troi allan yn fethiant a wnaeth yr anturiaeth, ac wele y Cymry yn

gwasgaru i leoedd eraill. Cawn fod amryw yn byw yn Coal Creek yn flaenorol i 1877, feallai ddwy neu dair blynedd, oblegid cawn fod Ysgol Sul wedi ei sefydlu yma y flwyddyn hono, ac ar y 13eg o Ebrill, 1879, sefydlwyd yma Eglwys Gymreig. Rhif aelodau cyntaf yr Eglwys ydoedd 13, ond heddyw, trwy lafur ac ymdrech pregethwyr galluog, rhifa yr aelodau tua 70, heblaw y gangen-eglwys yn Williamsburgh. Deallwn fod rhif yr aelodau wedi cael eu dyblu bron yn y ddwy flynedd ddiweddaf. Bu y pregethwyr canlynol yn gwasanaethu yr Eglwys, sef y Parchn. G. M. Jones, M. B. Morris, T. A. Humphreys, —— Davies. Y Parch. M. A. Ellis, M. A., ydyw y gweinidog presenol. Ceir fod agwedd lewyrchus ar yr achos goreu yn y lle hwn. Y flwyddyn ddiweddaf adeiladwyd yma dy i'r gweinidog gwerth tua $1,200, a deallwn eu bod bron wedi talu am dano. Hefyd mae gan ein cenedl yn Coal Creek gapel destlus iawn, ac yn wir dyma yr unig gapel yn y lle. Cynelir Eisteddfod yn y lle hwn bron bob blwyddyn, ac mae yn troi allan yn llwyddianus, yn llenyddol ac arianol, bron bob tro, a mawr ydyw y brwdfrydedd a

4971

ddangosir gan Gymry yr ardaloedd hyn yn yr hen sefydliad bendigedig. Cafodd ein cenedl yn y swydd hon gryn helbul adeg streic 1884, yr hyn a barodd i amryw o honynt ymadael, ac yn eu plith rai o gerddorion goreu yr ardal, ond erbyn hyn gwelir pob peth yn myned yn mlaen "megis yn y dyddiau gynt." Cymro ydyw Maer Coal Creek, a Chymro hefyd ydyw y *Marshal;* Cymro, drachefn, ydyw cynrychiolydd y swydd hon yn Senedd y Dalaeth eleni, sef William Phillips, ac yn olaf, ond nid y lleiaf ei glod, dyma y Cymro cywir Morgan Griffith yn sirydd y swydd er yn agos i 4 blynedd. Yma hefyd mae y llenor gwych Edward C. Roberts yn byw, ynghyd a'r doniol John L. Roberts, ac hefyd y diacon ffyddlon Richard Hughes, yr hwn sydd yn nos-wyliwr yn Senedd y Dalaeth yn y brif ddinas eleni. Felly canfyddwn fod ein cenedl yn lled barchus yn y parthau yma, a dywedir fod o 500 i 700 o Gymry yn byw yn swydd Fremont.



4972

## SWYDD GILPIN.

### CENTRAL CITY A RUSSELL GULCH.

Yn gynar yn ngwanwyn 1859 cawn i ychydig Gymry adael eu cartrefleoedd yn y dwyrain gan wynebu tua'r gorllewin pell, ac yn sefydlu yn nhalaeth Colorado yn awr, mewn lle o'r enw Gregory Gulch (Pike's Peak) yn swydd Gilpin, yn eu plith yr oedd y rhai canlynol: John Edwards, John E. Jenkins (Deer Lodge, Montana, yn awr), "Jack" Thomas, Morris Thomas, E. Paul Jones, Edward Davies (Clifton, Iowa, yn awr), Hugh Edwards, Evan Williams, Evan Pritchard, ac eraill. Aeth y mwyafrif o honynt ati ar unwaith i olchi y pridd am aur, a hyny gyda gradd helaeth o lwyddiant, ond nid heb lawer o helbul gan y *tough characters* oedd yn y lle yr adeg hono, ac nid anfynych y gelwid ar yr ychydig Gymry i amddiffyn eu bywydau a'u buddianau, ac mae yn dda genym groniclo y ffaith y ceid ein cenedl bob amser ar ochr *Law and Order*, fel y dywedir, hyd nes y cliriwyd y *camp* o'r oll oedd yn erbyn hyny. Yn ngwanwyn 1860 cawn fod y cwmni Thomas a Davies yn gweithio yn galed

4973

wrth olchi yr aur, ac ystyrid hwy yn mhlith rhai o brif olchwyr Gregory Gulch. Mae Morris Thomas yn byw yn Denver yn awr, gan fwynhau ei hun goreu a ello ar elw y blynyddau hyny, ac mae Edward Davies yn amcanu gwneyd yr un peth yn Clifton, Iowa. Yn gynar yn 1862 gellid gweled *sign* yn Central City yn darllen: "Jones & Evans, Retail Grocers, etc.," ac wrth holi cawn fod y cwmni yn gyfansoddedig o Richard W. Evans (brawd i'r henafgwr E. B. Evans, Denver), yn awr yn *retired banker* ac yn byw yn Fort Dodge, Kas., a D. N. Jones, yn awr yn byw yn Eau Claire, Wis. Yn mhen rhai misoedd wele "Brenin y Menyn" yn gwneyd ei ymddangosiad yn y *camp* newydd gyda llwyth o'r peth gwerthfawr hwnw, ac ni fu yn hir cyn cael gwared o'i *stock*, a chawn ef yn parotoi i ddychwelyd yn ol gyda llawer o aur mwnwyr Gregory Gulch. Nid oedd y "brenin" hwn yn neb llai na Robert Owens, o gwmni Owens a Jones, Dodgeville, Wis., yn awr. Cawn i'r gwr hwn ymweled ar lle amryw droion gyda'i *Welsh butter*, fel y dywedai y mwnwyr, a hyny er lles i'r bobl ac elw iddo yntau. Tua'r adeg

yma daeth William N. Jones a Richard J. Williams yma o Cambria, Wis., gyda llwyth o bethau wedi eu codi ar ffermydd Wisconsin, er mwyn eu gwerthu i drigolion Gregory Gulch, ac wedi cyflawni eu neges cawn hwy yn dychwelyd yn ol, gan, yn ddiau, roddi gair da i'r wlad newydd, oblegid cawn yn y gwanwyn canlynol (1863) amryw yn dyfod allan o ardaloedd Dodgeville a Cambria, Wis., ac yn eu plith John G. Roberts (Denver yn awr), y diweddar Barch. O. M. Williams, David Jenkins a'r teulu, W. H. Pierce, ac eraill, ac er fod rhai o honynt yn eu beddau maent megis yn "llefaru eto," a'u dylanwad i'w ganfod ar Gymry Colorado hyd heddyw. Cawn fod Cymry Gregory Gulch yr adeg hono, fel y ceir y Cymry bob amser, yn sychedu am gael mwynhau pethau crefyddol, ac yn mis Awst, 1863, sefydlasant Ysgol Sul, yr hon a rifai dros 30 o aelodau. Yn mis Tachwedd y flwyddyn hon cawn gawod arall o Gymry Wisconsin yn disgyn yn y lle, ac yn eu plith y Parch. Griffith Roberts (Lake Crystal, Minn., yn awr), a'i fab Thomas G. Roberts, a'r Sul cyntaf ar ol cyraedd y lle wele y Parch. Griffith Roberts yn pregethu i'r Cymry yn

4975

nhy y diweddar Evan Williams, a pharhaodd i weinidogaethu i Gymry Gregory Gulch hyd y mis Ebrill canlynol, yn cael ei gynorthwyo gan y diweddar Barch. O. M. Williams. Dymunwn ddywedyd yn y fan hon ei bod tuhwynt i amheuaeth mai y Parch. Griffith Roberts a bregethodd y bregeth Gymraeg gyntaf yn Colorado, a hyny yn Central, fel y crybwyllasom uchod. Yn 1864 aeth y Parch. Griffith Roberts yn ol i Wisconsin, a daeth y Parch. William Owen, gweinidog perthynol i'r Wesleyaid, allan o Dodgeville, i bregethu i'w gydgenedl yn Central, ac arosodd yno hyd y gwanwyn canlynol. Ni pharhaodd y mwyniant hwn yn hir wedi hyny, oblegid dechreuodd y Cymry wasgaru oddiyma, ac fe aeth y rhan fwyaf o honynt i swydd Clear Creek. Cafodd y gwr da Evan Williams ei ladd yn y gwaith ar y 23ain o Fehefin y flwyddyn hon. Bu pethau yn lled dawel o hyn hyd 1870 yn mhlith Cymry swydd Gilpin, ond y flwyddyn hono wele gawod arall o'n cenedl yn disgyn yn Central o Wisconsin; yn eu plith cawn P. L. ac L. L. Roberts, teulu John R. Morgan (yr hwn oedd yno e'rs 2 flynedd yn flaenorol), Miss

Jennie Oliver (Mrs. Brubaker, Denver, yn awr), Thomas E. Jenkins, ac eraill. Wele hefyd Edward W. Williams, Edward Jones, William J. Evans, O. L. Owens a'r brodyr William a Robert Jones yn cael eu hunain yn Russell Gulch tua'r amser hwn. Ar ol sobri rhyw ychydig yn eu trachwant am y "metal melyn" a gweled "nad aur ydyw y cyfan sydd yn disgleirio" daeth eu prif nodweddion i'r golwg a chaed allan fod y rhan fwyaf yn feibion awen a chan a'u tueddiadau at y pethau mwyaf difrifol mewn bywyd. Yn 1873 wele yr Ysgol Sul Gymreig wedi ei sefydlu unwaith yn rhagor ac yn cael ei chynal yn nghapel y Bedyddwyr Saesoneg. Y Parch. O. M. Williams wedi dychwelyd o'r dwyrain ac yn myned ati i weithio fel "cawr i redeg gyrfa" a christion—yn Arolygydd yr Ysgol ac yn pregethu ddwy waith bob mis, ac yn cydsynio yn dra mynych i fyned i bregethu i ardaloedd eraill. Bron yn ddirybudd wele raglen "Cyfarfod Llenyddol, Central City, Nadolig, 1873," yn gwneyd ei ymddangosiad, a daeth y diwrnod, ac yr oedd pawb wedi eu synu wrth weled y fath gynulleidfa o Gymry. Cafwyd cyfarfod llewyrchus

iawn dan lywyddiaeth y Parch. O. M. Williams. Cor Central, dan arweiniad John R. Morgan, yn fuddugol ar y prif ddarnau cerddorol; Cymry Russell a Idaho Springs yn cipio y man wobrwyon am ganu ac adrodd; John G. Roberts a William T. Phillips (Denver yn awr) a'r cadeirydd yn enill ar y traethodau; Edward Jones, Russell, a Thomas E. Jenkins, Central, yn enill am farddoni. Yn yr hwyr cynaliwyd cyngerdd, a throdd y cwbl allan yn fwy llwyddianus nag y disgwylid. Yr oedd pawb yn gwaeddi "melus, moes mwy," ond cyn i Gymry swydd Gilpin gael amser i gyhoeddi cyfarfod arall, wele raglen a thestynau Eisteddfod Undebol Colorado yn cael ei cyhoeddi, yr hon oedd i'w chynal yn Golden, Gorphenaf 4, 1874, ac wele Gymry Gilpin yn dechreu parotoi ar gyfer yr ymdrechfa hono; Cymry Idaho Springs, Russell, Central a Black Hawk yn ymuno er codi cor dan arweiniad John R. Morgan, yn cael ei gynorthwyo gan y Cymro ieuanc T. Lloyd Williams, (yn awr yn Oakland, Cal.) Yn mis Chwefror, wrth weled Ysgol Sul y Cymry mor flodeuog, wele swyddogion capel y Bedyddwyr yn rhoddi rhybudd

iddynt ymadael, gan feddwl yn ddiau y gallasent hwythau wneyd yn llawn cystal gydag Ysgol Sul Saesoneg, ond yn taer ddymuno ar y Cymry droi eu hysgol i'r iaith fain. Modd bynag, yn bur fuan wele anedd-dy y Cymro cenedlgarol John R. Morgan wedi ei orphen ac yntau yn gwahodd ei gydgenedl yno i gynal eu cyfarfodydd, ac felly y bu, aethant yno i gynal yr Ysgol Sul, ac etholwyd Thomas E. Jenkins yn Arolygwr a P. S. Roberts yn Ysgrifenydd a Thrysorydd. Aed ati o ddifrif i geisio cael gan yr holl Gymry bresenoli eu hunain, ac yn fuan ymgasglai y Cymry o'r pedwar lle i fwynhau gwledd grefyddol, yr hyn oedd yn anwyl ganddynt. Ar ol yr Ysgol defnyddid ychydig amser er ymberffeithio erbyn y frwydr yn Eisteddfod Golden. Cawn fod y Cymry wrth ben eu digon yn Central yr adeg yma, ond nid oedd tymor eu mwynhad i barhau yn hir, oblegid ar yr 21ain o Fai, 1874, torodd tan allan yn yr adeilad nesaf i dy Morgans ac ni chafodd y Cymro pur yma ond prin amser i achub ei deulu cyn i'w dy a'i gynwysiad losgi yn lludw; drwy hyn collodd yr Ysgol Gymreig ei holl lyfrau ynghyd a'r gerddoriaeth oedd i'w canu

yn Eisteddfod Golden, a chan fod amryw o'r Cymry yn llettya ar yr un heol, a hwythau ar y pryd yn gweithio, collasant eu holl eiddo, oddigerth yr hyn oedd ganddynt am danynt ar y pryd. Llosgodd dros 150 o dai mewn tua awr o amser. Yn mysg y colledwyr cawn Robert H. Jones a Morris Thomas (y ddau yn Denver yn awr), John R. Morgans ac eraill. Pellebrodd y cantorion i'r dwyrain am gerddoriaeth, ond profodd y tan yn angeuol i'r Ysgol Sul ac ni wnaed yr un ymdrech i'w sefydlu drachefn. Daeth y 4ydd o Gorphenaf ac wele tua 50 o Gymry swydd Gilpin yn cychwyn am Eisteddfod Golden ac yn dychwelyd yn ol gyda bron yr oll o'r gwobrwyon am ganu, heblaw amryw wobrau am farddoni. Cynaliwyd amryw gyfarfodydd llenyddol yn Central y blynyddoedd hyn, ac mae yr un a gynaliwyd yn ngauaf 1877 yn deilwng o'n sylw. Llywydd y cyfarfod hwnw ydoedd y Parch. O. M. Williams; Thomas G. Roberts, Georgetown, yn beirniadu y cyfansoddiadau, yn cael ei gynorthwyo wrth glorianu y canu a'r areithio gan R. J. Roberts a John D. Lloyd. Bu cystadlu poeth dros ben yn y cyfarfod ac

aeth y peth i'r papurau Saesoneg gan lwyr anghofio mai "ofer dadl wedi barn." Trwy hyn daeth y Cymry i sylw, ond o'r diwedd tawelodd y cyfan a neb yn ddoethach. Yn 1876 wele fwngloddiau Russell yn adfywio a'r Cymry yn dylifo yno ar unwaith. Yn fuan sefydlwyd Ysgol Sul yn y lle, gan alw ar y Parch. O. M. Williams am ambell bregeth. Cynelid y cyfarfodydd yr amser yma yn yr Ysgoldy. Yn mysg newydd-ddyfodiaid Russell yr adeg hon cawn Griffith D. Griffiths (Prospect yn awr), Henry Davies, John R. Hughes, Abraham Lewis ac eraill. Cyn hir wele yr Ysgoldy yn myned yn rhy fychan a'r Cymry yn symud i gynal eu cyfarfodydd i loft ystordy E. W. Williams, yr hwn oedd newydd agor masnachdy yma. Yn 1870 daeth Isaac a Richard Jones yma o sir Flint, a chawn fod y blaenaf yn bregethwr lleol yn Nghymru, a bu yn pregethu i Gymry Russell yn achlysurol cyn iddo ddychwelyd yn ol i'r Hen Wlad. Yn 1880 cawn i ryw adfywiad sylweddol gymeryd lle gyda'r achos crefyddol yn Russell, pryd y daeth David H. Jones a Daniel ei frawd yma o Lerpwl at eu chwaer Mrs. Edward Jones.

4981

Gwelodd Dafydd ar unwaith mae prif angen y Cymry ydoedd lle i addoli, ac aeth o amgylch i ymgynghori a'r prif Gymry; y canlyniad fu iddo alw cyfarfod cyhoeddus i ystyried y peth a phenderfynwyd yr adeg hono i godi capel. Etholwyd swyddogion yn y fan a phenodwyd Mrs. Edward Jones a Miss Lizzie Williams i gasglu, ac er i'r capel gostio dros $1,000 yr oedd pob dolar wedi ei thalu cyn ei agor, yr hyn a dystia yn uchel am gymwysderau y ddwy Lizzie at gasglu, a pha ryfedd i un ganu a ganlyn iddynt:

"Dwy enwog am eu daioni—dwy od
Am hudo doleri;
Neb yma, neb mi wn i—yn Russell
A meddwl isel am y ddwy Lizzie."

Daeth amser agoriad y capel, a chafwyd math o gyfarfod areithio yn lle pregethu i'w agor; y Parch. O. M. Williams yn areithio ar "Gymry Russell Gulch," a Evan B. Evans (Denver yn awr) ar "Y Ty Hwn," ynghyd ag eraill. Abraham Lewis, John R. Hughes a Henry Davies oeddynt yr Ymddiriedolwyr cyntaf, a'r rhai presenol ydynt Robert Edwards, Thomas Parry a Richard Jones. Ar ol hyn cawn fod golwg lewyrchus iawn ar achos Cymreig Rus-

sull, ac er eu bod hyd yma heb yr un gweinidog sefydlog, ceir pregethu yn aml gan y Parchn. W. D. Price, Denver, John T. Williams, Erie, M. A. Ellis, Coal Creek, T. Miles a W. Charles, Denver. Cynelir cyfarfodydd llenyddol yn aml, ac fel rheol maent yn hynod adloniadol. Ceir yn y lle hwn yn awr tua 100 o Gymry, a Chymry ydyw prif fasnachwyr a pherchenogion mwngloddiau mwyaf cyfoethog y lle; mewn gair, y Cymry sydd yn "rhedeg y lle" fel y dywedir.

---

## SWYDD GUNNISON.

Daeth llawer o Gymry i'r swydd hon yn 1880 ac 1881, a'r rhan fwyaf o honynt o Leadville, gan sefydlu yn Crested Butte, Gothic, Elko, Scofield ac Irwin. Y blynyddau cyntaf yr oeddynt yn dra lluosog yn y lleoedd hyn, ond oherwydd sefyllfa isel masnach ni cheir ond pur ychydig o Gymry yma gan iddynt wasgaru i leoedd eraill yn y dalaeth. Mae ychydig o'n cenedl yn byw yn awr yn Crested Butte, ac yn gweithio yn y gweithfeydd glo

yno; yn Prospect, drachefn, cawn Griffith D. Griffiths ac Evan L. Jones yn byw, ac yn Elko cawn Richard Lloyd yn byw. Mae gair da i'r tri gwyr hyn fel dinasyddion a mwnwyr profiadol.

---

## SWYDD JEFFERSON.

Er nad ydyw y Cymry yn lluosog yn y swydd hon yn awr, buont felly rai blynyddau yn ol. Yn 1862 cawn Evan E. Davis (Denver yn awr) a'r teulu yn byw yn Golden, ac yn mhen 10 mlynedd ar ol hyn (1872) cawn John L. Roberts, Caerfaban, a John Williams yn prydlesu glofa Dennis Murphy ar Ralston creek ac yn ei gweithio yn llwyddianus; amryw Gymry yn eu gwasanaeth, megis y cerddor G. W. Williams, Dodgeville, Wis., Edward Lloyd, W. Pritchard a Jeremiah Lewis. Yn 1873 daeth Henry W. Evans, y glowr enwog, allan o Pennsylvania i gymeryd gofal glofa W. A. H. Loveland, a daeth tua 12 o Gymry i'w ganlyn, ynghyd ag amryw o leoedd eraill. Yn mis Mai sefydlwyd yma Ysgol Sul Gymreig,



4984

a'i haelodau yn rhifo tuag 20, heblaw y plant. Yn mis Medi, drachefn, daeth y Parch. John Evans (Eglwysbach) allan i dalu ymweliad a'i chwaer, Mrs. John L. Roberts, Ralston Creek. Penderfynwyd yn ddioedi ofyn iddo bregethu yn Saesoneg un prydnawn Sul. Daeth yr amser penodedig a'r pregethwr, ynghyd a llonaid yr ystafell eang o wrandawyr, tri o bob pedwar o honynt yn bobpeth ond Cymry. Cymerodd y pregethwr ei destyn a dechreuodd bregethu yn bur araf a'r gynulleidfa yn gwrando yn astud; yn y man wele y gwr enwog yn dechreu "gwresogi at ei destyn," ond yn ymddangos fel pe yn llafurio dan gryn anhawsderau, ac yn anesmwyth. Cyn hir mae y gwaed Cymreig yn dechreu poethi ac aml air yn rhy ystyfnig i ufuddhau i'r tafod. Yn ddirybudd, collodd y pregethwr ei hunanfeddiant, a chyda y geiriau "ddaw hi ddim, fechgyn," torodd allan yn ei iaith ei hun a thraddododd y gweddill o'i bregeth yn yr hen Omeraeg anwyl er syndod i'w wrandawyr. Rhaid ychwanegu iddo ddal y gynulleidfa megis ar gledr ei law hyd y diwedd. Cyrhaeddodd y newydd yma Gymry Golden yn fuan a llwyddasant hwythau

i gael addewid gan y pregethwr enwog o'r Eglwysbach i roddi pregeth Gymraeg y Sul canlynol. Y Sul a wawriodd ac wele gapel y Bedyddwyr yn orlawn—pawb yn rhyfeddu o ba le y daeth cymaint o Gymry at eu gilydd. Yn y man wele y pregethwr yn darllen y geiriau canlynol o Rhufeiniaid viii, 23, fel ei destyn: "Ac nid yn unig y creadur ond ninau hefyd y rhai sydd genym flaenffrwyth yr Ysbryd, &c.," a diau i'r pregethwr galluog ragori arno ei hun y tro hwn, ac yr oedd ei hyawdledd tuhwnt i'n gallu desgrifiadol ni. Sicr ydyw nad oes yr un o'i wrandawyr wedi anghofio swm a sylwedd ei bregeth hyd heddyw. Yn ngauaf 1873 wele Gymry Golden yn cyhoeddi fod Eisteddfod Undebol Colorado i'w chynal yno ar y 4ydd o Gorphenaf canlynol; mawr oedd y disgwyliad am i'r dydd wawrio, ac yn ei dro gwnaeth, ac yn fuan wele heolydd Golden City yn llawn o Gymry o'r lleoedd amgylchynol. Y Parch. O. M. Williams ydoedd cadeirydd yr Eisteddfod a Henry W. Evans yn arweinydd; Cynonfardd yn feirniad y cyfansoddiadau; Rice Morgan, Denver, a Prof. Tyrall yn feirniaid y canu, a

4986

Thomas E. Jenkins, Central, yn feirniad yr areithio a'r adroddiadau. Yn y man cawn William Francis, Erie, a James R. Hughes, Golden, yn fuddugol ar y traethodau; Henry W. Evans, Golden, Edward Jones, Russell, a Thomas E. Jenkins, Central, yn cael y gwobrau am farddoni, a chantorion swydd Gilpin yn cipio yr holl wobrwyon am ganu. Yn yr hwyr cynaliwyd cyngerdd llwyddianus iawn. Felly terfynwyd Eisteddfod Undebol gyntaf Colorado, a hyny yn llwyddianus. Bernir fod tua 300 o Gymry yn bresenol yn yr uchel-wyl hon. Y Sul canlynol pregethodd y Parch. O. M. Williams i'w gydgenedl yn Golden. Yn 1876 cawn i Edwards a Roberts sefydlu masnach yn y dref, ac yn yr haf dilynol agor cangen o honi yn Freeland, ger Idaho Springs. Nid oes golwg mor addawol ar bethau yn Golden yn awr ag yr oedd yr adeg hono, ac ychydig ydyw nifer ein cenedl yn y lle.

4987

## SWYDD LAKE.

Torodd *excitement* Leadville allan yn y flwyddyn 1879, a daeth lluoedd yno o bob rhan o'r wlad, ac yn eu plith lawer o Gymry. Cawn fod aml i Gymro wedi bod yno yn flaenorol, sef Evan E. Davis (Denver yn awr), Evan Davis (Emporia, Kas., yn awr), Richard Jones (Montezuma yn awr) ac Edward Davis, pa rai fuont yno yn 1860 ac 1862; er hyny ychydig oedd nifer y Cymry yno hyd 1879, pryd y cawn yn "ninas y cymylau" o 300 i 500 o Gymry yn preswylio. Yn y flwyddyn hon sefydlwyd yma Ysgol Sul, Cyfarfod Gweddio a Seiat, ac yr oedd golwg pur lewyrchus ac addawol ar yr oll, ond byr fu parhad y cwbl. Yr adeg hon cawn i ddau ddiacon gael eu hethol ar eglwys Leadville, ond ni pharhaodd tymor eu swyddogaeth yn hir gan fod y Cymry mor ddifater, ac oherwydd hyn bu farw yr achos Cymreig yn y lle. Yn 1880 cawn i ddwy Eisteddfod leol gael eu cynal yma, un ar Ddydd Calan a'r llall ar Ddydd Gwyl Dewi Sant; yn mhlith y buddugwyr ar y gwahanol destynau cawn Griffith D. Griffiths, Griffith Gee

4988

Jones, John Margam ac eraill, pa rai sydd wedi gadael Leadville er's llawer dydd bellach. Bu amryw Gymry yn arolygwyr ar rai o fwngloddiau goreu y lle, megis Evan L. Jones (Prospect, Colo., yn awr), Cynfelyn a David Jones. Mae David Jones yn un o *County Commissioners* swydd Lake yn awr. Hefyd cawn yma Thomas G. Roberts (mab y Parch. Griffith Roberts, Lake Crystal, Minn.) yn cadw ystordy eang ac yn flaenor yn un o eglwysi y Methodistiaid Esgobawl er's llawer blwyddyn bellach. Ceir yn Leadville yn awr ryw 15 o deuluoedd Cymreig, heblaw llawer o bobl sengl.

---

## SWYDDI GRAND, GARFIELD A PITKIN.

Ceir Cymy yn wasgaredig ar hyd y swyddi hyn. Yn Meeker deuwn o hyd i Owen Jones; yn Aspen cawn John R. Williams (yr hwn sydd yn un o hen sefydlwyr hynaf y lle) ynghyd ag amryw eraill; yn Penny's Hot Springs cawn William D. Parry yn cadw ystordy er diwallu anghenion y preswylwyr,

4989

ac yn rhan-berchenog yn rhai o twngloddiau goreu yr ardal; yn Glenwood Springs, drachefn, cawn Thomas Williams (diweddar o Lawson, Colo.,) yn cadw ystordy esgydiau, ac yn Jerome Park, Cardiff a Newcastle cawn fod llawer o'n cydgenedl yn byw ac yn gweithio yn y gweithfeydd glo cyfagos. Arolygydd rhai o'r gweithiau yma ydyw William Morgan, diweddar o Braddock, Pa., os ydym yn cofio yn iawn. Bu ei fab farw yma yr haf diweddaf yn 21 mlwydd oed, ac yr oedd yn ddyn ieuanc hynod addawol, ond gwywodd y glaswelltyn ai flodeuyn a syrthiodd.

---

## SWYDD PUEBLO.

Mae yn y swydd hon rai ugeiniau o Gymry, llawer o honynt yn gweithio yn y tawdd-dai yn nhref Pueblo a'r amgylchoedd. Pa flwyddyn y sefydlasant yma gyntaf nis gwyddom, ond hyn a wyddom, sef fod llawer o Gymry yn Bessemer a Pueblo yn flaenorol i 1880. Bu y diweddar Daniel N. Jones yn dal y swydd

o arolygydd ar y gweithfeydd haiarn yma am lawer blwyddyn, ac er yn ei fedd cawn air da iddo gan drigolion Pueblo. Yn awr ac eilwaith ca Cymry Pueblo y fantais o wrando pregethu Cymreig, ac ar yr adegau hyny deallwn fod cynulliadau lluosog yn dyfod ynghyd.

## SWYDD SAN JUAN.

Yn mhlith sefydlwyr Cymreig cyntaf y swydd hon cawn Thomas Williams a'r brodyr E. L. a R. Roberts. Cafodd y diweddaf ei ladd gan *snowslide* ddwy flynedd yn ol. Daeth y rhai hyn i Silverton tua y flwyddyn 1874. E. L. Roberts sydd yn cadw y Riverside Hotel yno yn awr. Mae yn yr amgylchoedd hyn lawer o'n cenedl yn trigianu, a daeth llawer o honynt yno o ardal Aberystwyth, D. C. Yn mhlith Cymry y lle hwn cawn y bardd J. Elerch Jones, y cerddorion Lloyd a Mason, ynghyd a llu eraill. Mae amryw o'n cenedl yn dal swyddi pwysig yn mwngloddiau goreu

4991

yr ardal. Ceir tua 50 o Gymry yn byw yn Silverton, ac yn dra mynych cynaliant gyfarfodydd llenyddol.

---

## SWYDDI DELTA, MONTROSE, OURAY, SAGUACHE A SAN MIGUEL.

Cawn i rai o'n cenedl anturio i'r swyddi hyn yn 1875, a diau mae y ddau gyntaf oeddynt Robert Jones a G. G. Pritchard, pa rai sydd yn byw yn awr yn Ames, swydd San Miguel. Yn 1880 aeth O. L. Davis, R. W. Francis, John Lloyd ac eraill, i ardal Telluride, ac mae y blaenaf yn byw yno yn awr ac yn cadw un o'r masnachdai mwŷaf yn y lle. Mae rhif y Cymry wedi cynyddu yn ddiweddar yn y swyddi hyn, ac mae bron yn beth anmhosibl myned i un *camp* yn y swyddi hyn heb ddyfod i gyffyrddiad a rhai o'n cenedl.

## SWYDD SUMMIT.

Yn 1862 cawn i Richard Jones fyned i Tarryall, ond ni arosodd yno ond amser byr, fel yn 1867 cawn iddo sefydlu yn Montezuma, ac yr oedd yno amryw o'i genedl yn barod i'w dderbyn gyda breichiau agored, sef yr hen wr Griffith Jones (Amlwch, G. C., yn awr), Griffith Gee Jones ac eraill. Yn mhen rhai blynyddau cawn i Evan L. Jones, Griffith D. Griffiths, John T. Davies, William W. Griffiths, Daniel Davies (Minneapolis, Minn., yn awr) ynghyd ag amryw eraill, fyned yno; aeth rhai o honynt i weithio i'r St. John ac eraill i *prospectio,* fel yn 1870 yr oedd rhif y Cymry yn y lle hwn yn dra lluosog, ond yn 1880 dechreuasant wasgaru oddiyno, fel erbyn hyn nid oes ond 3 neu 4 yn y lle.

---

## SWYDD WELD.

Cawn i David Llewelyn, Benjamin Davies a John Griffiths ddyfod i'r swydd hon yn 1871, gan sefydlu yn Erie, a'r flwyddyn ganlynol

dilynwyd hwy gan y Parch. John T. Williams a William Francis, pa rai a ddaethant yno o Bevier, Mo. Yr adeg hon dechreuodd y Cymry amlhau, fel yn y flwyddyn 1873 cawn iddynt sefydlu Ysgol Sul, ac yn mhen ychydig dechreuodd y Parch. J. T. Williams bregethu i'w gydgenedl. Yn 1875, drachefn, sefydlwyd yr Eglwys yn y Town Hall, lle y buont yn addoli hyd nes yr oedd y capel wedi ei orphen yn 1883. Blaenoriaid yr Eglwys hon yn awr ydynt William Francis a Micah Williams. Mae yn Erie dri o bregethwyr yn byw, sef y Parchn. John T. Williams, John P. Jones a William G. Williams; pregetha y ddau olaf bob yn ail Sul i gynorthwyo y Parch. John T. Williams, yr hwn, oherwydd afiechyd sydd yn analluog i bregethu yn rheolaidd. Ar yr 2il o Fehefin, 1884, cynaliwyd Eisteddfod yn y lle hwn, yr hon a drodd allan yn llwyddianus ag ystyried sefyllfa isel masnach ar y pryd. Mae amryw Gymry tra enwog yn byw yn y pentref bychan yma, yn eu plith y cerddor galluog John Phennah, yr hwn a ymblesera gyda y gorchwyl o ddysgu cerddoriaeth i bobl ieuainc y lle. Hefyd cawn amryw o'n cenedl

yn fasnachwyr llwyddianus yma, sef y Brodyr Morgans, Probert a Williams, T. Griffiths ac eraill, ynghyd a William Francis a John Rees yn rhedeg glofa y MacGregor, Davies a Jenkins yn gweithio glofa y Baker; hefyd dyna Micah Williams yn Ustus Heddwch, T. Williams, yn *Marshal*, Hugh Jones a John Phennah yn aelodau o'r *City Council*, fel cydrhwng yr oll rheda pethau yn y lle yn dawel a digynwrf; yn wir, y Cymry ydyw bywyd y lle. Mae yn Erie dros 200 o'n cenedl yn preswylio.

4995

## NODIADAU BYRION

AM RAI O BRIF

# Gymry Colorado yn y Gwahanol Sefydliadau.

### PARCH. WILLIAM CHARLES, DENVER.

Ganed William Charles yn Gwalchmai, Sir Fon, ac ymfudodd y teulu i Wisconsin yn 1853. Mae William Charles yn fab i'r pregethwr enwog William Charles, yr hwn a fu yn seren eglur yn ffurfafen y pwlpud Cymreig. Ymfudodd ef a'i fam i Old Man's Creek, Iowa, yn 1864, ac yno y dechreuodd gwrthddrych y nodiadau hyn bregethu yn 1873, ac oddiyno aeth i athrofa y Presbyteriaid yn Chicago. Bu yn weinidog eglwys Bresbyteraidd Dodgeville, Wis., am lawer blwyddyn a thrwy ei offerynoliaeth ef yr adeiladwyd y capel hardd sydd ganddynt. Collodd Mr. Charles ei iechyd, ac oherwydd hyny daeth i Colorado yn 1886 gan sefydlu yn Denver, ac efe fu yn offeryn i

sefydlu yr eglwys yma. Mae iddo air da fel pregethwr a christion, ac hyderwn yr arbedir ef i wneyd llawer o ddaioni eto yn ngwinllan ei Arglwydd. Fel hyn yr ysgrifenodd Cefni Parry yn *Y Wasg* am y teulu yma: "Yr oedd y Siarliaid yn genedl o bregethwyr. Clywais yr hen wr John Charles (taid Mr. Charles) a'i bedwar mab yn pregethu. Y meibion oeddynt: Hugh Charles, Tymawr, John Charles, Penhesgyn, Dafydd a William Charles, Gwalchmai. Ond William oedd seren ddisglaer y teulu a seraph tanllyd y pwlpud yn Mon."

---

## LLEWELYN P. DAVIES, CENTRAL.

Daeth Dr. Davies i'r America o Lerpwl tua thair blynedd yn ol, ac a sefydlodd yn Central. Mae yn un o gyfferwyr goreu y dalaeth, ac yn rhan-berchenog yn y "Best Drug Co." Efe ydyw Arolygydd Ysgol Sul Russell. Mae yn brysur iawn yn llywyddu cyfarfodydd llenyddol Russell ac yn clorianu y beirdd a'r llenorion yno ar bob adeg. Nid oes ar Doc. gywilydd arddel ei wlad, a'i arwyddair bob amser ydyw "Cas gwr na charo y wlad a'i macco," ac ni raid i'r

4997

Cymro ofni digio Mr. Davies wrth barablu iaith ei fam yn y masnachdy eang; na mae yno groesaw calon i Gymro a Chymraeg. Llwyddiant iddo.

---

## GRIFFITH EVANS, ESTES PARK.

Mae y gwr hwn yn enedigol o Ogledd Cymru. Gadawodd "hen wlad y menyg gwynion" rai blynyddau yn ol, ac a sefydlodd yn Wisconsin, o ba le y daeth i Colorado yn 1867 gan sefydlu yn Denver. Aeth oddiyma i swydd Boulder yn 1873 ac ymsefydlodd yn Estes Park, ac yma cawn iddo fyned i helbul oherwydd i Mountain Jim, fel ei gelwid, roddi rhybudd i Evans ymadael o'r lle, yr hyn ni wnaeth, gan feddwl yn ddiau fod *public domain Uncle Sam* yn rhydd iddo yntau gystal a Mountain Jim sefydlu arno. Y canlyniad fu i Mountain Jim ymosod ar Evans yn ddirybudd, ond profodd yr ornest hon yn angeuol i Jim a rhyddhawyd Evans ar fyrder. Mae Evans yn rhan-berchenog yn rhai o fwngloddiau goreu yr ardal yn awr.

### ANRH. MELVIN EDWARDS, DENVER.

Ganed Melvin yn nhalaeth Wisconsin, ac yno mae ei fam yn byw yn awr. Daeth i Colorado ryw 12 mlynedd yn ol. Mae Melvin Edwards yn Gymro, ond fel llawer eraill yn analluog i siarad yr iaith. Bu yn Ysgrifenydd y dalaeth am 4 blynedd a chyflawnodd y swydd er boddlonrwydd cyffredinol. Er nad ydyw ond dyn ieuanc mae wedi casglu llawer o gyfoeth.

---

### EX-GOV. JOHN EVANS, DENVER.

Ganed John Evans yn nhalaeth Ohio. Daeth ei deulu i'r wlad hon o ardal Porthmadog, G. C. Nis gall siarad ond ambell air o'r Omeraeg, er hyny mae y gwaed Cymreig yn berwi trwy ei gorph. Cawn iddo sefydlu yn Illinois yn lled gynar, ac er anrhydedd iddo ef yr enwyd Evanston yn y dalaeth hono. Yn 1862 y daeth i Colorado i weinyddu y swydd o lywodraethwr, ac yma y mae eto. Mae iddo amryw blant ac enwir yr oll ag enwau gwir Gymreig. Ceir John Evans bob amser yn barod i helpu ei gydgenedl, ac mae iddo air da gan bawb.

### MORGAN GRIFFITHS, COAL CREEK.

Ganed gwrthddrych y nodion hyn yn Ohio, ond ymfudodd oddiyno i Pennsylvania. Yr oedd yn y dalaeth hono amser terfysg y *Molly Maquires*, ac yn un o warcheidwaid Reading ar y pryd. Daeth i Colorado yn 1881 a sefydlodd yn swydd Fremont. Mae Morgan yn Gymro i'r carn, ac yn cael yr ymddiried llwyraf gan ei genedl a'r Americaniaid, ac mae ei etholiad yn sirydd swydd Fremont yn profi hyny.

---

### WILLIAM FRANCIS, ERIE.

Ganed William Francis yn Gwarycaeau, Morganwg, a daeth i'r Amerig yn 1871, gan sefydlu yn nhalaeth Pennsylvania, ac oddiyno aeth i Bevier, Mo. Cawn iddo sefydlu yn Erie yn 1872. Mae Francis yn Gymro aiddgar ac yn caru pobpeth perthynol i'w genedl. Mae yn un o ddiaconiaid eglwys Erie er's llawer blwyddyn. Efe a enillodd y wobr am y traethawd ar "Gariad" yn Eisteddfod Golden City. Mae yn un o gwmni y MacGregor Coal Co. Dyma un o'r dynion mwyaf addfwyn y daethom i gyffyrddiad ag ef, a chawn air da iddo gan bawb a'i adwaena.

## GEORGE N. HUGHES, COAL CREEK.

Ganed hwn yn nghymydogaeth Gwrecsam, G. C. Ymfudodd i dalaeth Pennsylvania rai blynyddau yn ol, a daeth i Colorado yn 1881. Efe ydyw Maer "dinas y glo," ac mae pawb yn hoff o hono. Caria yn mlaen fasnach goed ar raddfa eang. Mae yn un o'r dynion goreu a mwyaf cymwynasgar ac yn Gymro i'r carn ac yn gwneyd ei oreu o blaid pobpeth Cymreig yn y lle y preswylia.

---

## RICHARD HUGHES, COAL CREEK.

Ganed hwn yn Rhosymor, Sir Flint, a chawn iddo ymfudo i New Jersey yn 1867, ac oddiyno daeth i Colorado yn 1878, gan sefydlu yn Coal Creek. Mae Hughes yn un o ddiaconiaid yr eglwys yno er's 5 mlynedd bellach, ac yn un o'r ffyddloniaid, a cheir iddo air da gan bawb yn y gymydogaeth. Cadwa ystordy yn y lle, ac fel llawer eraill o'n cenedl yno cafodd gryn *draw back* adeg streic 1884.

## GRIFFITH D. GRIFFITHS, PROSPECT.

Ganed y gwr hwn yn ardal Bethesda, Arfon. Ymfudodd i Vermont yn 1865, ac oddiyno i'r talaethau deheuol. Yn 1874 daeth i Colorado gan sefydlu yn Georgetown. Cawn iddo symud yn dra mynych, ond mae yn swydd Gunnison yn awr er's 9 mlynedd, ac yn rhan-berchenog yn rhai o fwngloddiau goreu Rock Creek a Galena Mountain. Cafodd ei ethol yn Ustus Heddwch yn y swydd hon amryw droion, ac y mae iddo air da yn mhob lle y bu yn byw. Mae Griff yn Gymro trwyadl ac yn caru pob peth Cymreig. Mae yn llenor a bardd tra gwych, ac wedi bod yn fuddugoliaethus amryw droion mewn Eisteddfodau lleol, ac ar bob amgylchiad ceir ef yn barod i helpu ei gyd-ddyn.

---

## ROBERT R. GRIFFITHS, DENVER.

Ganed R. R. yn agos i Pwllheli, G. C. Ymfudodd i Chicago yn 1867 gyda'i gyfaill John T. Davies. Daeth i Georgetown yn 1870 ac oddiyno i Denver yn 1871. *Self-made man* ydyw heb gael bron ddim ysgol ddyddiol, er hyny nis gellir ymddyddan ag ef ar bron un-

rhyw bwnc nag ydyw yn hyddysg ynddo. Mae yn un o'r athrawon goreu, yn ddadieuwr da ac yn feirniad craffus. Mae yn ddewis-ddyn gan Gymry Denver i lywyddu eu cyfarfodydd a gwna hyny bob amser yn drefnus ac i'r pwrpas, ac nid anfynych y gelwir arno i areithio. Saer ydyw wrth ei alwedigaeth ac y mae yn un o grefftwyr goreu y brif-ddinas. Bu am rai blynyddau yn ben-gweithiwr i McPhee a McGinnity. Mae wedi casglu cryn lawer o gyfoeth er pan yma ac yn cymeryd gofal o'i eiddo, er hyny cawn ei fod bob amser yn barod i helpu pob achos teilwng.

---

### JOHN G. JENKINS, DENVER.

A aned yn Nantgarw, ger Caerdydd, D. C. Ymfuddodd ef a'r teulu i'r wlad hon rhyw 23 mlynedd yn ol gan sefydlu yn Ohio, o ba le y daeth i Colorado yn 1872 gan sefydlu yn Canon City, ac oddiyno drachefn i Denver yn 1879. Dyn bychan o gorpholaeth ydyw, er hyny mae yn llawn o'r tan Cymreig. Efe ydyw llywydd cymdeithas y Cambrians yma er's llawer o amser bellach. Mae pawb yn Colorado yn hoff

5036

o "Jenkins y Crydd," ac iddo air da gan bawb. Mae yn cadw ystordy esgydiau eang yma yn 715 15th Street, ac y mae croesaw calon i bob Cymro i'w gael yno.

---

## THOMAS E. JENKINS, CENTRAL.

Ganed gwrthddrych y nodiadau hyn yn Sir Aberteifi. Ymfudodd i'r Amerig yn 1864 gan sefydlu yn Wisconsin, ac yn 1870 daeth i Central, lle y mae yn awr. Cawn fod Tom yn un o ddaearegwyr goreu swydd Gilpin, ac wedi bod yn arolygydd ar rai o fwngloddiau goreu yr ardal. Mae bob amser yn flaenllaw gyda llenyddiaeth—yn fardd ac yn llenor da, ac wedi bod yn fuddugol mewn aml i Eisteddfod. Efe ydyw prif seren Eisteddfodau lleol yn y rhanbarth, a bu yn feirniad yn Eisteddfod Golden ac yn Eisteddfod Denver, 1884. Hefyd cawn ei fod yn *Alderman* yn nhref Central, yr hyn a ddengys fod gan drigolion y lle feddwl mawr o hono.

## EDWARD JONES, RUSSELL GULCH.

Ganed "y Cymro tew a dedwydd" hwn yn Dolgellau, G. C. Daeth i Colorado yn 1870 o Bevier, Mo. Un o'r "Welsh Quartette" ydyw, sef hen berchenogion y mwngloddiau "Champion" a'r "Arizona." Ar ol gwerthu allan, sefydlodd fasnach yn Russell, lle y ceir ef heddyw yn hynod lwyddianus. Dyn dystaw a diymhongar, bob amser yn barod i wirio yr hen ddiareb mai "cyfaill cywir yn yr ing y'i gwelir." Y mae yn llenor a bardd tra adnabyddus ac yn "aiddfedawl Eisteddfodwr." Y mae yn parhau yn siriol a dirodres er y mawr glod a dderbynia drwy y papurau Saesoneg am ei allu a'i ddiwydrwydd fel arweinydd y "Welsh Choral Union." Cawn fod awen "Iorwerth Meirion" wedi deffro o'i chwsg yn ddiweddar, ac yntau yn cipio y gwobrwyon yn nghyfarfodydd Russell.

---

## ROBERT PARRY, ST. ELMO.

Brodor o Sir Ddinbych, G. C., ydyw Cynfelyn. Ymfudodd i'r wlad hon lawer blwyddyn yn ol. Sefydlodd yn Leadville yn 1879 ac oddiyma

cawn iddo fyned i St. Elmo, lle y cartrefa yn awr. Mae Cynfelyn yn ddaearegwr tra gwych ac wedi cael profiad helaeth yn y mwngloddiau. Bu yn arolygydd ar rai o fwngloddiau goreu yr ardal, megis y "Mary Murphy" a'r "Tom Murphy." Bu yn feirniad mewn aml i Eisteddfod, a chawn ddarnau o'i farddoniaeth yn ymddangos yn dra mynych yn y papurau Cymreig.

---

## JOHN PHENNAH, ERIE.

Brodor o ardal Gwrecsam, G. C., ydyw hwn. Daeth i Colorado yn 1880 gan sefydlu yn Denver. Yn 1883 aeth oddiyma i Alpine, Colo., ac oddiyno i Erie, lle y mae yn awr. Dyma un o gerddorion goreu y dalaeth—yn ganwr da ac yn hyddysg yn elfenau cerddoriaeth. Bu yn feirniad mewn aml i Eisteddfod yn y dalaeth. Mae yn aelod o *City Council* Erie. Hefyd efe sydd yn dysgu cerddoriaeth i bobl ieuainc y lle. Dyn distaw a diymhongar ydyw, a chawn iddo air da gan bawb.

## JOHN G. ROBERTS, DENVER.

Ganed y gwr hwn yn ardal Llanrwst, G. C., ac ymfudodd ei rieni i'r wlad hon ryw 40 mlynedd yn ol gan sefydlu yn Wisconsin. Mae yn fab i'r Parch. Griffith Roberts, Lake Crystal, Minn. Daeth John G. allan i Colorado yn 1863 gan sefydlu yn Central; oddiyno aeth i Georgetown, lle y bu yn arolygydd ar rai o'r mwngloddiau cyfoethocaf. Tua 2 flynedd yn ol symudodd ef a'i deulu i Denver, ac yma y mae yn awr, ac nid anfynych y gelwir arno i lywyddu cyfarfodydd y Cymry, heblaw beirniadu ac areithio, yr hyn a wna er boddlonrwydd cyffredinol. Bu am flynyddau yn ddiacon ffyddlon yn eglwys Bresbyteraidd Georgetown, a chawn iddo adael gair da ar ei ol yno fel dyn a christion.

## JOHN G. ROBERTS, IDAHO SPRINGS.

Ganed y gwr hwn yn Beddgelert, G. C. Wedi treulio rhai blynyddau yn Awstralia daeth i Idaho Springs yn 1872, ac yn fuan cawn ef yn adeiladu melin fawr (Concentrator) i Collum Bros. Wedi ei gorphen a'i rhedeg yn

5040

llwyddianus am beth amser cafodd alwad i godi un arall yn Black Hawk, a phan yn codi hon cafodd freintebau (patents) gwerthfawr o Washington, a pharodd y rhai hyn chwyldroad effeithiol hyd yn nod yn y "Stamp Mills." Daeth yn enwog fel celfyddydwr cywrain a daeth gofyn gwyllt am ei wasanaeth. Wedi hyn cawn ef yn adeiladu melyn fawr yn Lake City, San Juan, i gwmni o Loegr, ac fel arfer, trodd hono allan yn llwyddiant perffaith a dychwelodd yntau i swydd Gilpin er codi melin yn Russell i gwmni o'r Alban. Yn y man wele felin arall yn codi ei phen yn Idaho Springs; ond er rhagoroldeb y rhai hyn yr un a gododd ar Fall River, ger Idaho Springs, ydyw gorchestwaith ei fywyd. Dyn distaw a diymhongar ydyw, ond yn *genius* i'r eithaf.

---

## LEWIS ROBERTS, DENVER.

Yn Sir Frycheiniog y ganed Lewis, ond bu yn trigianu yn Merthyr, D. C., o ba le yr ymfudodd i Colorado yn 1879 gan sefydlu yn Denver. Mae "Lewis Brycheiniog" yn Eis-

teddfodwr dihafal, yn Gymro da, ac yn llenor gwych; yn siaradwr rhwydd a bob amser i'r pwrpas. Efe ydyw ysgrifenydd y Cambrians er's blynyddoedd bellach a diau mai anhawdd fuasai cael ei well. Mae yn un o'r cadeirwyr goreu, ac yn llawen yn mysg cwmni bob amser. Mae yn hyddysg yn hanes ei genedl, yn wladol a chrefyddol.

---

## THOMAS G. ROBERTS, LEADVILLE.

Ganed Thomas G. yn Racine, Wis. Mae yntau yn fab i'r Parch. Griffith Roberts, Lake Crystal, Minn. Daeth Thomas i Colorado yn mis Tachwedd, 1863, gan sefydlu yn Central. Oddiyno aeth i Georgetown yn 1864, ac oddiyno, drachefn, yn 1879 i Leadville, lle y mae yn awr yn cadw ystordy ar raddfa eang. Mae yn rhan-berchenog yn un o fwngloddiau cyfoethocaf swydd Summit. Cawn ei fod yn flaenor yn un o eglwysi yr M. E. yn Leadville er's blynyddau bellach, ac ni chlywir iddo ond gair da gan bawb.

## MORRIS THOMAS, DENVER.

Un o bedwar sydd yn gwneyd i fyny gwmni Sauer, McShane & Co., Central City, pa rai sydd yn dwyn yn mlaen un o'r masnachdai helaethaf yn y Mynyddoedd Creigiog, gan y derbyniant yn flynyddol dros $300,000 am nwyddau. Daeth Thomas i Gregory Gulch yn 1859, a llwyddodd tuhwnt i'w ddisgwyliadau yn y mwngloddiau, fel erbyn heddyw cawn ef yn gysurus ei amgylchiadau ac yn rhan-berchenog yn rhai o brif adeiladau Central, heblaw y tai sydd ganddo yn Denver. Symudodd Morris Thomas i Denver yn 1884. Yn 1863 cawn iddo ymuno mewn glan briodas gyda Hannah Thomas, o ardal Dodgeville, Wis., a diau mai hon ydoedd y briodas Gymreig gyntaf yn Colorado. Mae Morris Thomas yn Gymro o'r iawn ryw, a cheir ef bob amser yn barod i gynorthwyo ei gyd-ddyn.

---

## EDWARD W. WILLIAMS, RUSSELL GULCH.

Ganwyd a magwyd y bonwr hwn yn Dolgellau, G. C. Ymfudodd i'r Amerig yn 1868 gan sefydlu ger Racine, Wis. Yn 1870 daeth

i Colorado gan sefydlu yn Russell Gulch. Fel darganfyddwr a rhan-berchenog y mwnglawdd "Champion," yn 1876, y daeth i sylw cyffredinol gyntaf, a gwerthwyd y mwnglawdd am bris uchel yn 1878, ac wele Williams yn sefydlu masnach gyffredinol yn Russell, gan sicrhau y swydd o Bostfeistr yno, yr hon swydd a leinw hyd heddyw. Yn 1886 gwerthodd yr "Arizona," mwnglawdd cyfoethog arall, am bris boddhaol, a daeth i'r gwyneb ar unwaith fel un o ddinasyddion mwyaf craffus ac anturiaethus swydd Gilpin. Fel dyn cenedlgarol mae bob amser yn barod i hyrwyddo pob mudiad Cymreig, ac i gynorthwyo ei gydgenedl. Pan yr oedd cwmwl "du, du, di-des" (Emrys) yn hofran uwchben Russell, a chyfalaf yn dychryn ac yn cefnu ar y lle a'r mwnwyr yn llwfr a digalon, neidiodd Williams i'r adwy a phrofodd, trwy roddi gwaith i ddegau o fwnwyr, fod ganddo yr ymddiried llwyraf yn y rhanbarth, a mawr y clod a dderbyn gan y mwnwyr am eu cadw ar y gwyneb yn y cyfnod tywyll hwnw. Profodd ei fod yn deall ansawdd y mwngloddiau yn well na neb, ac heddyw cawn ef yn mwynhau

ffrwyth y cynhauaf toreithiog. Mae yn rhanberchenog yn rhai o fwngloddiau cyfoethocaf rhanbarth Russell. Wedi ac yn gwrthod pob swydd gyhoeddus, ymfoddlona ar fwynhau ei lwyddiant gyda'i deulu caredig.

---

## PARCH. JOHN T. WILLIAMS, ERIE.

Ganed y gwr parchedig hwn yn y Twrch, ger Penycae, D. C. Ymfudodd i West Virginia lawer blwyddyn yn ol, ac oddiyno i Ohio, a thrachefn, yn 1872 daeth i Colorado gan sefydlu yn Erie. Mae John T. Williams yn "Israeliad yn wir" yn ol syniadau pawb a'i adwaena. Mae wedi gwasanaethu llawer ar Gymry Colorado yn ei ddydd, ond yn ddiweddar, oherwydd afiechyd, metha wneyd yr hyn a ddymuna dros ei Arglwydd. Mae bob amser yn barod i helpu ei genedl, a cheir iddo air da fel pregethwr a christion. Dymunwn iddo hir oes i wneyd rhagor o les.

5045

# Ol-Nodion Cyffredinol.

---

Gwelwn oddiwrth yr hyn a ysgrifenwyd, fod cenedl y Cymry wedi bod yn bur flaenllaw yn nadblygiad y dalaeth hon, ac am hyny dylent gael y clod a haeddant.

Ai tybed y rhaid i Gymry America wrido oherwydd ymddygiad y Cymry yn Colorado? Na atto Duw. Oblegid cawn fod rhai o'n cenedl yn y dalaeth yn llenwi sefyllfaoedd pwysig mewn byd ac eglwys, ac yr ydym yn credu y dylai Cymry y "Centennial State" fod yn falch o'u hanes o 1859 hyd yn awr, ac ni raid iddynt gywilyddio pei lledaenid dros yr holl fyd.

Ychydig oedd rhif y Cymry yma yn '59, ond yn '89 bernir fod yn y dalaeth tua 3,500 yn byw, yr hyn a ddengys gynydd sylweddol.

Cawn hefyd fod amryw o'n cenedl wedi llwyddo i fyned yn gyfoethog wrth dreiddo i

grombil y "Rockies" am y trysorau cuddiedig, a chawn lawer yn cyrchu at yr un nod.

Credwn ein bod wedi rhoddi crynodeb llawn a chywir o "Hanes Cymry Colorado" mor agos ag y mae modd.

Ein harwyddair bydded—

"I Fyny bo'r Nod,
Dringwn lethrau serth Clod."



www.kimkat.org/amryw/1_testunau/sion_prys_114_hanes-cymry-colorado_0100k.pdf